Crist, olau gwiw!
Adnodd Adfent 2008

Crist, olau gwiw yw teitl fersiwn Gymraeg o gân Gristnogol rymus gan Bernadette Farrell, sef 'Christ, be our light'. Mae'n crynhoi ein gobaith yng Nghrist, a'n gweddïau dros anghenion ein byd. Mae 'Crist, olau gwiw' hefyd yn thema briodol i'w dathlu yn ystod yr Adfent a'r Nadolig.

Defnyddiwch y geiriau a'r gerddoriaeth yn yr adnodd addoli hwn i ddathlu dyfodiad Crist yr Adfent hwn, fel y gallwn ni gyda'n gilydd gyfarch 'Crist, olau gwiw'.

CÂN: Crist, olau gwiw

1. Mewn caddug du, o ble daw'r golau?
   Ble gawn ni'r gwir? Dim ond gen ti.
   Gwna ni'n dy bobl, gwna ni yn sanctaidd
   Ti yw goleuni'r byd.

Cytgan:
   Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
   Trecha'r tywyllwch.
   Crist, olau gwiw!
   Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

2. Dyheu am hedd, mewn byd o bryder
   Gobaith yn brin, ninnau yn wan
   Ti yw yr un sy'n gallu'n hachub
   Gad i ni fyw i ti.

3. Dyheu am fwyd, llawer yn llwgu
   Dyheu am ddŵr, sychedu maent
   Gwna ni yn fara, dorrir i eraill
   Rhannwn â phawb drwy'r byd.

4. Dyheu am loches, llawer heb gartref,
   Llawer yn oer, heb fflam y ffydd
   Gwna ni yn gartref, lloches i eraill
   Muriau o feini byw.

5. Llawer o fodd, llawer o bobl
   Llawer ar daith, i'th geisio di
   Gwna ni yn weision, bob un i'w gilydd
   Deled dy deyrnas di.

© 1994, Bernadette Farrell. Cyhoeddwyd gan OCP Publications, 5536 NE Hassalo, Portland, OR 97213, USA. Cedwir pob hawl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Gweddïau: 'Dduw trugarog a thosturiol' a 'Dad y goleuni' yn seiliedig ar weddïau Saesneg yn *The Promise of His Glory*, hawlfraint Bwrdd Cyllid Canolog Eglwys Loegr 1991; Cyngor yr Archesgob 1999, ac fe'i hatgynghyrchir gyda chaniatâd.

'O Dduw, rwyt ti wedi gosod...' a 'Iesu Sanctaidd' yn seiliedig ar weddïau Saesneg yn *Prayers for Use at the Alternative Services* gan David Silk. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig y Continuum International Publishing Group.

Lluniwyd y myfyrdodau Beiblaidd gan Clare Amos, Cyfarwyddwr Astudiaethau Diwinyddol y Cymundeb Anglicanaidd ac Ymgynghorydd Diwinyddol USPG.

USPG Anglicans in World Mission

Wythnos 1

CÂN: Crist, olau gwiw

Mewn caddug du, o ble daw'r golau?
Ble gawn ni'r gwir? Dim ond gen ti.
Gwna ni'n dy bobl, gwna ni yn sanctaidd
Ti yw goleuni'r byd.

Cytgan:
Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
Trecha'r tywyllwch.
Crist, olau gwiw!
Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

MYFYRDOD

Mae'r Adfent yn gyfnod o ddisgwyl gobeithiol sy'n disgwyl yn ystod y dyddiau tywyllaf yn ein blwyddyn ogleddol. Rydym yn disgwyl am wawr goleuni Crist. Fel mae'r adnodau hyn o'r Llythyr at yr Effesiaid yn ei awgrymu, bydd dyfodiad Crist yn datguddio i ni'r lleoedd tywyll hynny yn ein byd – y byd y bydd ef yn dyfod iddo. Er hynny, bydd ei ddyfodiad hefyd yn ein deffro o drwmgwsg, yn debyg i belydrau cryf yr haul yn tywynnu drwy ein ffenestri ar fore disglair. Fel 'plant y goleuni', cawn nerth i ymateb i'r anghenion dwysaf hynny yn ein byd. Ond serch hynny, mae yna ryw lewyrch yn torri drwy'r tywyllwch lle bynnag y bydd yr eglwys yn chwilio am ffyrdd o dystiolaethu yn ein bywyd am bob 'daioni a chyfiawnder a gwirionedd'.

Darlleniad: Effesiaid 5: 8-14

GWEDDI

O Dduw,
rwyt ti wedi gosod ger ein bron y gobaith mawr,
y bydd dy deyrnas yn ymddangos yn ein byd,
ac yr wyt ti wedi ein dysgu i weddïo am y dyfodiad hwnnw:
rho dy ras i ni ddehongli a deall arwyddion y wawr newydd honno
ac i weithio ar gyfer y dydd perffaith hwnnw
pan wneler dy ewyllys ar y ddaear,
megis y mae yn y nefoedd:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd, **Amen.**
(yn seiliedig ar eiriau Percy Dearmer)

Rhowch rodd a wnaiff wahaniaeth – RHODD O FYWYD: Hyfforddi arweinyddion lleyg - £12/€15

Mae Swaziland yn wynebu llawer o galedi, ac mae hi ymysg y gwledydd sydd â'r gyfradd uchaf o HIV yn y byd. Mae prinder arweinwyr yn amharu'n fawr ar waith yr eglwys yn ymateb i'r argyfwng hwn. Gall eich rhodd chi helpu i roi adnoddau i'r eglwys drwy gyllido cwrs dwy flynedd ar gyfer arweinyddion lleyg.

Wythnos 2

CÂN: Crist, olau gwiw

Dyheu am hedd, mewn byd o bryder
Gobaith yn brin, ninnau yn wan
Ti yw yr un sy'n gallu'n hachub
Gad i ni fyw i ti.

Cytgan:
Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
Trecha'r tywyllwch.
Crist, olau gwiw!
Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

MYFYRDOD

Mae'n rhyfedd, rywsut, meddwl bod un o'r darlleniadau mwyaf poblogaidd sy'n cael ei gysylltu â'r Adfent - hwnnw sy'n sôn am enedigaeth Tywysog Tangnefedd - yn perthyn i un o gyfnodau tywyllaf hanes yr Hen Destament. Mae'n bosib bod Eseia 9 yn perthyn i gyfnod pan oedd Israel yn dioddef gorthrwm milwrol dwys o du Ymerodraeth yr Asyriaid. Roedd pobl wir yn byw mewn 'gwlad o gaddug dudew'. Eto i gyd, i'r tywyllwch mawr hwn yr oedd Eseia'r proffwyd yn llefaru - yn gwbl hyderus o nerth achubol Duw, fel y gallai ddefnyddio'r amser gorffennol, a mynegi: 'canys bachgen a aned i ni'.

Darlleniad: Eseia 9: 2, 6 a 7

GWEDDI

Dduw trugarog a thosturiol,
sydd â'i fab yn seren y bore
ac yn haul cyfiawnder:
boed iddo lewyrchu yn y tywyllwch
ac yng nghysgodion y byd hwn,
fel y gallwn dy wasanaethu mewn rhyddid a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Rhowch rodd a wnaiff wahaniaeth – RHODD O FYWYD: Rhaglen gyfnewid i bobl ifanc - £19/€24

Ers dros ddau ddegawd, mae Sri Lanka wedi cael ei chreithio â rhyfel cartref chwerw iawn sy'n codi o densiynau ethnig. Gall eich rhodd chi helpu i anfon unigolyn ifanc ar raglen gyfnewid a fydd yn para deng niwrnod, ac a fydd yn rhoi cyfle iddyn nhw rannu profiadau bywyd â phobl Sri Lanka, a chodi pontydd o ddealltwriaeth.

Wythnos 3

CÂN: Crist, olau gwiw

Dyheu am fwyd, llawer yn llwgu
Dyheu am ddŵr, sychedu maent
Gwna ni yn fara, dorrir i eraill
Rhannwn â phawb drwy'r byd.

Cytgan:
Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
Trecha'r tywyllwch.
Crist, olau gwiw!
Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

MYFYRDOD

Y weledigaeth sydd gan Mathew o'r eglwys yw un sy'n ymdebygu i ddinas ar fryn na ellir cuddio ei goleuni. Mae'n ddarlun calonogol ar y naill law, ac yn ddarlun o ddychryn ar y llaw arall. Mae amlygrwydd yr eglwys yn cynnig cyfle iddi dystiolaethu a chynnig gwasanaeth, ond mae amlygrwydd hefyd yn golygu bod ei ffaeleddau hefyd yn dod i'r wyneb. Dywed Efengyl Ioan wrthym fod Ioan wedi dweud amdano'i hun: 'Myfi yw goleuni'r byd'. Yn yr adnodau hyn mae Mathew yn fwy beiddgar byth. 'Chwi [disgyblion Iesu] yw goleuni'r byd'. Trwom ni, felly, y gall y byd gael cipolwg ar Iesu. Ond, os methwn ni â chyrraedd y nod gyda'n galwedigaeth, yna byddwn yn euog o guddio goleuni Crist oddi wrth y byd.

Darlleniad: Mathew 5: 14-16

GWEDDI

Dad y goleuni,
oddi wrthyt ti y daw pob peth daionus a gwir roddion:
cadw ni yng ngoleuni Crist
i lewyrchu yn dy fyd,
fel y bydd pawb yn credu ynot ti,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Rhowch rodd a wnaiff wahaniaeth – RHODD O FYWYD: Pecyn argyfwng - £15/€19

Mewn argyfwng, bydd pobl yn aml yn troi at yr eglwys yn gyntaf am gymorth ymarferol. Gall eich rhodd chi fod o gymorth i ddarparu bwyd, blancedi ac offer coginio ar gyfer teulu sy'n ceisio dygymod â chanlyniad uniongyrchol trychineb naturiol.

Wythnos 4

CÂN: Crist, olau gwiw

Dyheu am loches, llawer heb gartref,
Llawer yn oer, heb fflam y ffydd
Gwna ni yn gartref, lloches i eraill
Muriau o feini byw.

Cytgan:
Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
Trecha'r tywyllwch.
Crist, olau gwiw!
Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

MYFYRDOD

Mae llythyr cyntaf Pedr yn archwilio a thrawsnewid dealltwriaethau'r Hen Destament yng nghyd-destun cenedl, teml ac offeiriadaeth. O fod wedi ein hadeiladu yn 'dŷ ysbrydol', yr ydym yn freintiedig i gynnig lloches i Dduw, ynghyd â'r rhai y mae Duw yn cydgerdded â nhw. Mae cael dod yn 'offeiriadaeth frenhinol' yn anrhydedd fawr ynghyd â bod yn her aruthrol yr un pryd, oherwydd mae'n rhaid i offeiriaid a brenhinoedd fyw nid yn unig er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn pobl eraill. Felly, fe'n tynnwyd ni allan o'r tywyllwch er mwyn rhannu goleuni rhyfeddol Duw gydag eraill.

Darlleniad: 1 Pedr 2: 4-5, 9-10

GWEDDI

Deisyfwn, O Dduw, ar i ti ennyn yn ein calonnau
fflam o'r cariad hwnnw nad yw'n pallu,
fel ei bod yn llosgi ynom i roi goleuni i bobl eraill.
Boed i ni ddisgleirio'n dragwyddol yn dy deml,
gyda'th oleuni tragwyddol yn llewyrchu ynom –
y goleuni sy'n anfon pob tywyllwch ar ffo o'r byd hwn;
yn enw Iesu Grist, dy fab a'n Harglwydd ni. **Amen**
(yn seiliedig ar eiriau Sant Columba)

Rhowch rodd a wnaiff wahaniaeth – RHODD O FYWYD: Dŵr, nwy a thrydan - £26.50/€33.60

Mae Hostel San Esteban yn Uruguay yn darparu llety, gwasanaeth cwnsela a chyfle i gymdeithasu i bobl ddigartref sy'n dioddef o HIV. Wrth i'r preswylwyr gymryd y camau cyntaf at integreiddio eilwaith i'w cymunedau, byddai eich rhodd yn cynorthwyo'r hostel i dalu ei biliau dŵr, nwy a thrydan am wythnos.

Y Nadolig

CÂN: Crist, olau gwiw

Llawer o fodd, llawer o bobl
Llawer ar daith, i'th geisio di
Gwna ni yn weision, bob un i'w gilydd
Deled dy deyrnas di.

Cytgan:
Crist, olau gwiw! Dangos y ffordd
Trecha'r tywyllwch.
Crist, olau gwiw!
Yn dy Eglwys di, golau a fydd.

MYFYRDOD

Pan ddaw'r Nadolig, rydym yn derbyn y rhodd orau oll - rhodd Duw o fyd newydd, drwy enedigaeth yr un sy'n 'oleuni'r byd'. Mae geiriau Paul yn 2 Corinthiaid yn mynd â ni yn ôl at eiriau cyntaf Duw yn Genesis: 'Bydded goleuni'. O'r dechreuad hwn, daeth y greadigaeth yn fyw. Ers hynny, efallai bod y goleuni fel pe bai wedi pylu ychydig, ond yn ystod y Nadolig cawn ein gwahodd i ddarganfod pa mor ddisglair y mae gogoniant Duw yn disgleirio yn wyneb Iesu Grist. Yn y baban hwn a aned ym Methlehem, mae nod y greadigaeth yn cael ei chyflawni o'r diwedd. Gadewch i ni ddathlu - a helpu i wneud byd newydd Duw yn realiti yn ein hoes ni.

Darlleniad: 2 Corinthiaid 4: 5-6

GWEDDI

Iesu Sanctaidd,
i'n gwaredu ni o rym y tywyllwch
buost yn ddigon gwylaidd i gael dy eni yn ein plith
a chael dy roi i orwedd mewn preseb.
Gad i oleuni dy gariad lewyrchu bob amser yn ein calonnau,
a dod â ni o'r diwedd at y weledigaeth ogoneddus o dy brydferthwch di;
oherwydd yr wyt ti nawr yn fyw, ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân,
yn Dduw byth bythoedd. **Amen.**

Rhowch rodd a wnaiff wahaniaeth – RHODD O FYWYD: Rhywle i gysgu - £10.00/€13

Gyda'r nod o roi'r dechrau gorau posibl ar fywyd i bobl ifanc, mae'r eglwys ym Malawi yn helpu i ddarparu addysg uwchradd. Gallai eich rhodd chi helpu â'r gwaith o adeiladu ystafelloedd cysgu newydd i ysgol uwchradd Malosa, gan alluogi ei disgyblion preswyl i elwa ar noson dda o gwsg.

Mae eglwysi lleol drwy'r Cymundeb Anglicanaidd cyfan yn estyn allan at gymunedau tlotaf y byd mewn ffyrdd ymarferol sy'n newid bywydau.

Mae **USPG: Anglicans in World Mission** angen eich gweddïau a'ch cyfraniadau er mwyn cefnogi'r gwaith hanfodol hwn yn yr eglwys.

Mae'r disgrifiadau o 'roddion bywyd' yn yr adnodd hwn yn darparu enghreifftiau o'r math o waith y byddwch chi'n ei gefnogi drwy eich cyfraniad.

Mae'r holl enghreifftiau o roddion yn ddarnau o waith go iawn y mae'r Eglwys Anglicanaidd yn ei gynnal yn lleol, gwaith y maen nhw wedi gofyn am gymorth ariannol gan USPG i'w gyflawni.

USPG: Anglicans in World Mission
200 Great Dover Street
London SE1 4YB

Ffôn: 0845 273 1701
E-bost: enquiries@uspg.org.uk

www.uspg.org.uk
Rhif elusen gofrestredig 234518

USPG Iwerddon
Gobadruish
Mohill, Swydd Leitrim

Ffôn: 071 965 1998
E-bost: uspg@ireland.anglican.org

www.uspg.ie
Rhif elusen gofrestredig CHY 7998

RHODDION BYWYD

Ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth pan ddaw hi'n amser prynu rhoddion i ffrindiau neu aelodau o'r teulu'r Nadolig hwn?

Yn hytrach na hosanau a phethau ymolchi, beth am roi rhodd wahanol iddyn nhw - Rhodd o Fywyd? I archebu eich rhoddion, ewch i www.lifegivinggifts.org neu ffoniwch 0845 273 1701 am gatalog am ddim.

Pob llun: USPG/Leah Gordon
Er dibenion portreadu yn unig y mae'r lluniau yn y daflen hon.